*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 29AIN MEDI, 2021** am **5.00 PM.**

**AGENDA** **Tudalennau**

**12.1. DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG 12A**

Diwygio'r Rhybudd O Gynnig 12A

**3 - 6**

**<u>Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau Llywodraethol</u>**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**

tudalen wag

**CYFARFOD O'R CYNGOR – 29 MEDI 2021**
**DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL SYDD WEDI'I NODI YN EITEM (12A) O AGENDA'R CYNGOR**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau'r Cynghorwyr P. Jarman, A. Cox, J. Williams, S. Rees-Owen, M. Weaver, E. Griffiths, D. Grehan, H. Fychan AS, K. Morgan, L. Jones, E. Stephens, E. Webster, S. Evans, A. Chapman, G. Davies, J. Davies a J. Cullwick i'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i amlinellu yn eitem 12(a) o agenda'r Cyngor.

Dros y 18 mis diwethaf, mae arwyr ar y rheng flaen ym, mhob rhan o'r sectorau cyhoeddus a phreifat wedi arwain y frwydr yn erbyn COVID-19, gan roi eu hunain mewn perygl a gwneud aberthau personol enfawr i ddiogelu'r GIG, achub bywydau a chadw'r DU i fynd.

Mae eu cyfraniadau wedi cael eu cydnabod yn eang, gyda miliynau yn sefyll ar eu stepen drws i ddangos eu gwerthfawrogiad ar wahanol adegau yn ystod y pandemig. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyfleu ei werthfawrogiad mewn cyfres o ddyfyniadau gwag am arwyr y rheng flaen.

Serch hynny, yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant un flwyddyn yr hydref diwethaf, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys "saib" tâl sector cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol yma, gyda dim ond y rhai sy'n ennill llai na £24,000 a staff y GIG yn cael eu heithrio. Ym mis Mawrth, cafodd Llywodraeth y DU ei feirniadu'n chwyrn ar ôl i gynigion ar gyfer codiad cyflog o 1% ar gyfer y rhai sydd wedi'u heithrio o'r "saib" gael eu cyhoeddi, tra bod modd i'w gynnig gwell o 3%, yn dilyn argymhelliad gan gorff Adolygu Cyflogau'r GIG, arwain at gamau gweithredu diwydiannol.

Mae arwyr rheng flaen ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus bellach yn wynebu toriad cyflog gwirioneddol arall er gwaethaf eu hymdrechion diflino i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a bod ein cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel dros y 18 mis diwethaf. Mae uwch gynrychiolwyr o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr eisoes wedi mynegi eu siom a'u gwrthwynebiad i godiad cyflog o 0% - sy'n dod ar adeg pan mae swyddogion yr heddlu'n wynebu mwy na 100 o ymosodiadau y dydd (cynnydd o 20% ers y flwyddyn flaenorol). Yn ogystal â hynny, mae'r miloedd o staff a gaiff eu cyflogi gan y Cyngor yma wedi cael cynnig cynnydd cyflog o 1.75%, a bydd angen i'r Cyngor yma ariannu'r cynnydd yn llwyr o'i adnoddau ei hun os caiff ei dderbyn.

{Dileu: ~~Yn ddiweddar, mae Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Jeremy Miles AS wedi cadarnhau ei fod yn bwriadu derbyn y codiad cyflog argymelledig o 1.75% i athrawon. Serch hynny, os cytunir arno, mae'n debygol y bydd angen dod o hyd i'r cyllid o'r adnoddau presennol hefyd, gan na dderbyniodd Llywodraeth Cymru unrhyw arian ychwanegol trwy fformiwla Barnett i ddarparu'r dyfarniadau cyflog ledled y sector cyhoeddus yn 2021-22. Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am y penderfyniad yma, ond unwaith eto mae'n cael effaith uniongyrchol ar Gymru}.~~

{Mewnosod: Er gwaethaf yr uchod, rydyn ni'n croesawu'r Datganiad Ysgrifenedig a wnaed ar 8 Medi 2021 gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cadarnhau'r cynnydd o 1.75% i gyflog athrawon, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Medi 2021 a dyfarnu £6.4 miliwn arall tuag at gost y dyfarniad cyflog mewn ysgolion a chweched dosbarth yn ystod y flwyddyn ariannol yma}.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog i amlinellu barn y Cyngor yma bod ein harwyr ar y rheng flaen yn haeddu codiad cyflog gwirioneddol a theg, a bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ariannu hyn i osgoi trosglwyddo baich y gost i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru.

**Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:**

Dros y 18 mis diwethaf, mae arwyr ar y rheng flaen ym, mhob rhan o'r sectorau cyhoeddus a phreifat wedi arwain y frwydr yn erbyn COVID-19, gan roi eu hunain mewn perygl a gwneud aberthau personol enfawr i ddiogelu'r GIG, achub bywydau a chadw'r DU i fynd.

Mae eu cyfraniadau wedi cael eu cydnabod yn eang, gyda miliynau yn sefyll ar eu stepen drws i ddangos eu gwerthfawrogiad ar wahanol adegau yn ystod y pandemig. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyfleu ei werthfawrogiad mewn cyfres o ddyfyniadau gwag am arwyr y rheng flaen.

Serch hynny, yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant un flwyddyn yr hydref diwethaf, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys “saib” tâl sector cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol yma, gyda dim ond y rhai sy'n ennill llai na £24,000 a staff y GIG yn cael eu heithrio. Ym mis Mawrth, cafodd Llywodraeth y DU ei feirniadu'n chwyrn ar ôl i gynigion ar gyfer codiad cyflog o 1% ar gyfer y rhai sydd wedi'u heithrio o'r “saib” gael eu cyhoeddi, tra bod modd i'w gynnig gwell o 3%, yn dilyn argymhelliad gan gorff Adolygu Cyflogau'r GIG, arwain at gamau gweithredu diwydiannol.

Mae arwyr rheng flaen ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus bellach yn wynebu toriad cyflog gwirioneddol arall er gwaethaf eu hymdrechion diflino i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a bod ein cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel dros y 18 mis diwethaf. Mae uwch gynrychiolwyr o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr eisoes wedi mynegi eu siom a’u gwrthwynebiad i godiad cyflog o 0% - sy'n dod ar adeg pan mae swyddogion yr heddlu'n wynebu mwy na 100 o ymosodiadau y dydd (cynnydd o 20% ers y flwyddyn flaenorol). Yn ogystal â hynny, mae'r miloedd o staff a gaiff eu cyflogi gan y Cyngor yma wedi cael cynnig cynnydd cyflog o 1.75%, a bydd angen i'r Cyngor yma ariannu'r cynnydd yn llwyr o'i adnoddau ei hun os caiff ei dderbyn.

Er gwaethaf yr uchod, rydyn ni'n croesawu'r Datganiad Ysgrifenedig a wnaed ar 8 Medi 2021 gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cadarnhau'r cynnydd o 1.75% i gyflog athrawon, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Medi 2021 a dyfarnu £6.4 miliwn arall tuag at gost y dyfarniad cyflog mewn ysgolion a chweched dosbarth yn ystod y flwyddyn ariannol yma.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog i amlinellu barn y Cyngor yma bod ein harwyr ar y rheng flaen yn haeddu codiad cyflog gwirioneddol a theg, a bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ariannu hyn i osgoi trosglwyddo baich y gost i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru.

tudalen wag